**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL A GYNHALIWYD AR 12 GORFFENNAF, 2022**

**Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS, RHYDLEWIS am 7.30 p.m.**

**Yn bresennol** Cyng. Emyr Jones (cadeirydd), Cyng. Siân Williams, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Ceri Jones, Cyng. Mark Davies

**Ymddiheuriadau** Cynghorwyr Sharon Thomas a Llŷr Evans.

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Sharon Thomas a Llŷr Evans. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2021 a chyfarfod Mehefin 2022. | Roedd yr holl Gynghorwyr wedi cael copi o gofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2021 a chopi o gofnodion cyfarfod Mehefin 2022. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Ynghylch yr Asesiad Risg – gosodir hwn ar Agenda cyfarfod mis Medi.<br><br>Mae'r 'twll' yr oedd y Clerc wedi adrodd amdano ar CLIC ar ôl cyfarfod mis Mehefin wedi cael ei drwsio.<br><br>Cadarnhaodd Cyng. Ceri Jones ei fod wedi trwsio'r fainc ger Capel Hawen. Rhoddwyd anfoneb i'r Clerc am y deunyddiau a ddefnyddiwyd a chaiff hon ei chynnwys ar Agenda cyfarfod mis Medi.<br><br>Cyfryngau Cymdeithasol – Mae Cyng. Siân Williams wedi llwyddo i greu tudalen Facebook ond mae angen delio gyda threfniadau gweinyddu'r dudalen. | | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Maldwyn Lewis bod cofnodion cyfarfod mis Mehefin yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Siân Williams. | | |
| 6. | Ethol Swyddogion 2022-2023 | Cadeirydd – Cyng Maldwyn Lewis<br>Is-Gadeirydd – Cyng Ceri Jones. (cynigiwyd gan Maldwyn Lewis ac eiliwyd gan Siân Williams)<br>Swyddog Ariannol – Margaret Jones fel y Clerc<br>Archwiliwr Mewnol – Mr. Gwyn Jones, Aberaeron (cynigiwyd gan Maldwyn Lewis, eiliwyd gan Mark Davies). Bydd y clerc yn anfon llythyr swyddogol at Mr. Jones. | **Clerc** | |

7. Adroddiad y Cynghorydd Sir

Adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis bod yr holl Gynghorwyr Sir wedi cael cyrsiau hyfforddiant ynghylch Diogelu Oedolion ac Amddiffyn Plant Lefel 1 a'u bod yn bwriadu cwblhau Lefel 2 yn y dyfodol agos.

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ddechrau fis Awst a hysbysodd Cyng. Maldwyn Lewis ei gyd gynghorwyr ei fod wedi mynychu'r seremoni i ddadorchuddio Coron a Chadair yr Eisteddfod.

Hysbysodd Cyng. Lewis y cyfarfod hefyd bod trydydd teulu o Syria wedi cael cartref yn Aberteifi bellach, a'i fod wedi bod yn ffodus i gyfarfod y teulu, a'i fod yn teimlo ei bod yn anrhydedd eu cyfarfod. Roedd y teulu yn ddiolchgar iawn am yr help a roddir iddynt.

Yn ogystal, soniodd Cyng. Maldwyn Lewis am waith cymunedau yn yr ardal wrth iddynt fynd ati i addurno pentrefi lleol yn barod ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae un sticer cylch mawr ar gael i'w arddangos, ac ar ôl cynnal trafodaeth, penderfynwyd mai'r ffordd fwyaf diogel o ddangos y sticer hwn fyddai ei osod ar ddarn o bren yn siâp cylch a'i ddangos ym mhentref Rhydlewis ar faes y pentref o flaen y byngalos ym Mro Hawen. Bydd Cyng. Ceri Jones yn trefnu hyn.

Tynnodd Cyng. Emyr Jones sylw'r cyfarfod at y ffaith ei bod yn braf gweld y blodau a blannwyd ger arwyddion y pentref ym Mhenrhiwpâl.

Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Maldwyn Lewis o'r ffaith y cynhelir ymgynghoriad am derfynau cyflymder mewn ardaloedd adeiledig yn ystod yr Hydref, a fyddai'n lleihau'r cyflymder o 30 i 20 milltir yr awr.

8. Gohebiaeth

Cafwyd neges e-bost gan Mrs. Owenna Davies ynghylch y porfa sydd wedi tyfu'n wyllt ar sgwâr Ffostrasol. Trafodwyd y mater ac oherwydd nad oeddent yn siŵr pwy sy'n gyfrifol am hyn, oherwydd y gallai fod yn eiddo preifat, roedd y Cynghorwyr yn deall y sylwadau a wnaethpwyd, ond nid oeddent yn teimlo y gallent drefnu bod y porfa yn cael ei dorri oherwydd y gallai arwain at ddryswch ac yna, byddai pentrefi eraill yn dibynnu ar y Cynghorwyr lleol i gyflawni'r un gwaith sef torri mannau sydd wedi tyfu'n wyllt yn y Gymuned.

Fodd bynnag, ar ôl cyhoeddi a dosbarthu taflenni ym mhentref Coed-y-bryn i lanhau a phlannu blodau ar faes y pentref yng Nghoed-y-bryn, a'r ymateb gwych a gafwyd, awgrymodd Cyng. Siân Thomas y byddai modd codi ymwybyddiaeth mewn pentrefi eraill yn y gymuned efallai, ac y byddai modd i wirfoddolwyr ym mhob pentref drefnu dod ynghyd i fynd i'r afael â'r broblem. Byddai modd codi ymwybyddiaeth trwy ein Gwefan a'n tudalen ar Facebook hefyd.

9. Cynllunio

A220416 – Ysgubor Gwenoliaid, Rhydlewis.
Anfonwyd copi o'r cais cynllunio ymlaen at yr holl Gynghorwyr a thrafodwyd y mater. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau gan bod yr holl rai a oedd yn bresennol yn cytuno y byddai'n achub adeilad sy'n bodoli eisoes ac yn helpu'r economi wledig. Bydd y clerc yn ymateb ac yn adrodd ar wefan CSC. **Clerc**

| | |
|---|---|
| 10. Ariannol | **Ymchwiliad Archwilio** – Mae Cyng. Maldwyn Lewis wedi siarad gyda Mr. Gwyn Jones (swyddog ariannol blaenorol C.S.C) ac mae'n fodlon bwrw golwg dros ein cofnodion ariannol. Felly, trosglwyddodd y Clerc yr holl daenlenni a baratowyd, bonion llyfrau siec a datganiadau banc i Gyng. Lewis er mwyn iddo eu hanfon ymlaen at Mr. Gwyn Jones.<br><br>**Llofnodwyr NatWest** – Mae Cyng. Rob Jones yn aros am drwydded yrru newydd a chyn gynted ag y bydd yn cael hon, bydd yn trefnu ymweld â NatWest Caerfyrddin er mwyn llenwi'r ffurflenni gorchymyn perthnasol.<br><br>**Taliadau** CThEM - £43.40 (PAYE)<br>Cyflog y Clerc - £173.80<br><br>Llofnododd Cyng. Maldwyn Lewis y sieciau uchod yn ystod y cyfarfod, a chynigiodd Cyng. Siân Williams fynd â'r llyfr sieciau i Gyng. Roger Davies fel yr ail lofnodwr. Bydd Cyng. Williams yn trefnu dychwelyd y llyfr sieciau i'r Clerc yn ystod y Cinio Blynyddol a gynhelir ar 14 Gorffennaf. |
| 11. Materion Ardal | Roedd y Clerc wedi cael neges e-bost ac wedi ei hanfon ymlaen at yr holl Gynghorwyr, gan nodi nad yw'r ciosg yng Nghroes-lan yn gweithio. Cysylltwyd â B T tua 6 mis yn ôl, ond ni wnaethpwyd unrhyw waith trwsio hyd yn hyn. Trafodwyd y mater ac roedd pawb yn cytuno y dylai'r Cyngor Cymuned anfon llythyr yn y gobaith y byddai B T yn rhoi sylw i'r mater.<br>**Clerc**<br><br>Mae'r clawdd ar y brif ffordd yng Nghroes-lan (SA44 4SS) wedi tyfu'n wyllt ac mae'n gorchuddio'r arwydd am y terfyn cyflymder o 30 milltir yr awr wrth gyrraedd a gadael pentref Croes-lan. Adroddir am y mater ar CLIC.<br>**Clerc**<br><br>Cafwyd neges gan Julie Davies hefyd yn nodi nad oedd ysbwriel wedi cael ei gasglu ym Maes-llyn. Trafododd y Cynghorwyr y mater ac oherwydd salwch ymhlith y staff, mae hon yn broblem sy'n parhau yn y Sir.<br><br>**<u>Cynghorydd Newydd</u>** – Oherwydd y dangoswyd Hysbysiadau perthnasol yn yr holl hysbysfyrddau yn y gymuned, caniateir cyfethol Cynghorydd newydd nawr. Caiff y mater hwn ei gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Medi. |
| 12. Unrhyw fater Arall | Atgoffwyd yr holl rai a oedd yn bresennol o'r Cinio Blynyddol a gynhelir ar nos Iau, 14 Gorffennaf yn Y Daffodil, Penrhiw-llan. Oherwydd yr anfonwyd gwahoddiadau at Gynghorwyr blaenorol, sef Owenna Davies a Julie Davies, cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd y byddai arian o dreuliau'r Cadeirydd yn cael ei ddefnyddio i dalu am eu prydau nhw. Cynigiwyd hyn gan Gyng. Mark Davies, eiliwyd y cynnig |

| | | |
|---|---|---|
| | | gan Gyng. Siân Williams ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno. |
| 13. | Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 6 Medi am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Ffostrasol.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd newydd (Cyng. Maldwyn Lewis) i Gyng. Emyr Jones am ei waith dros y flwyddyn ddiweddaf.<br><br>Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.10 p.m. |
| 14. | Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Asesiad Risg<br>Adolygu Gwarcheidwadaeth a diweddaru rhestr y Diffibrilwyr<br><br>Cyllid – Archwiliad/Ffurflenni Blynyddol<br>Diweddariad am y Gorchymyn/Llofnodwyr<br>Taliadau<br>Materion Ardal – Cynghorydd Newydd<br>Cyfryngau Cymdeithasol<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 6 MEDI, 2022** am **7.30 p.m.** yn Neuadd Bentref Ffostrasol |